"Darparu addysg cyfrwng Cymraeg gyflawn o fewn cymuned hapus, ofalgar ac uchelgeisiol lle mae pob aelod yn cael eu gwerthfawrogi, yn cael cefnogaeth ac yn cael eu trin gyda pharch a goddefgarwch"

Rhifyn 4—Tymor yr Hydref 2016

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

# Newyddion Bryn Tawe

## Gair gan y Pennaeth—Croeso 'nôl!

Gobeithio i chi a'ch plant fwynhau gwyliau'r haf eleni? Erbyn hyn, mae'r disgyblion wedi dychwelyd yn llawn brwdfrydedd ar gyfer blwyddyn arall, ble rydym yn edrych i godi'r bar yn uwch eto o ran mwynhad, lles a pherfformiad ein disgyblion yn yr ysgol.

Cafwyd dau ddiwrnod o ddathlu ym mis Awst gyda nifer fawr o'r disgyblion yn llwyddo'n arbennig o dda yn eu canlyniadau Safon Uwch a TGAU.

Roedd y 18fed o Awst yn ddiwrnod pwysig i'n myfyrwyr yn y 6ed dosbarth a llwyddodd pob un i ennill o leiaf 2 gymhwyster Safon Uwch, gyda bron i 75% yn ennill 3 gradd A*-C. Llongyfarchiadau i Shauna Brown ar ennill 3 A ac 1A* ac mae ar ei ffordd i astudio Saesneg yn Rhydychen — dymuniadau gorau i ti!.




Pob dymuniad da i bob un o'n cyn myfyrwyr hefyd sydd naill ai wedi, neu ar fin dechrau cwrs yn y brifysgol! Rydym yn siŵr y byddwch yn mwynhau'r wythnos gyntaf — cofiwch weithio hefyd!

Ar y 25ain o Awst cafwyd llawer o ddathlu unwaith eto gyda nifer o unigolion yn serenni, gan gynnwys Jasmine Lewis yn llwyddo i ennill 12 A* - gwych! Roedd yn flwyddyn llwyddiannus unwaith eto i flwyddyn 11 llynedd wrth i bawb lwyddo i ennill 5 A*-C, gyda 68% yn llwyddo i ennill 5 A*-C gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg. Braf hefyd yw croesawi bron i 70 o'r disgyblion yn ôl i'r 6ed eleni!

Rydym yn edmygu penderfyniad ein rhieni di-Gymraeg i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg dros eich plant a fe gydweithiwn gyda chi i sicrhau eu bod yn elwa'n fawr o'r cyfle yma. Rydym wedi bod yn brysur yn cyfrannau at ddatblygu 'Siarter Iaith' Abertawe, gyda phob ysgol cyfrwng Cymraeg yn y sir, er mwyn "ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau". Yn sicr, y lle gorau i ddechrau ar hwn yw bob dydd yn yr ysgol - ymunwch gyda ni yn eu hannog - "Bydd falch, Bacha'r Iaith". Croeso i chi wneud hefyd!

Yn barod mae blwyddyn 7 wedi dechrau gwneud cyfraniad positif iawn i fywyd yr ysgol, yn enwedig yn eu hymdrechion i ddefnyddio'r Gymraeg 'ar y buarth'. Hyfryd yw gweld swyddogion y 6ed a mentoriaid blwyddyn 10 yn eu canol yn eu hannog – diolch i chi!

## DYDDIADAU PWYSIG Y TYMOR:

Nosweithiau Rhieni:

- 21/09/16—Noson Gyswllt Bl.12 ac Addysg Uwch Bl.13
- 28/09/16—Bugeiliol Bl. 7
- 14/11/16—Blwyddyn 11
- 07/12/16—Blwyddyn 12 a 13

Arholiadau:

- 02/11/16—Rhifedd TGAU Papur 1
- 04/11/16—Rhifedd TGAU Papur 2
- 08/11/16—Mathemateg TGAU Papur 1
- 10/11/16—Mathemateg TGAU Ppaur 2

Eraill:

- 21/11/16—HMS staff
- 14/12/16—Noson Wobrwyo Tystysgrifau TGAU a Safon Uwch



Wrth edrych ymlaen at flwyddyn gyffroes , hoffwn ddiolch i chi fel rheini am yr holl gefnogaeth rydym yn ei dderbyn i sicrhau'r safonau uchaf o ran presenoldeb, ymddygiad a chyflawniad ym Mryn Tawe. Cofiwch, Ennill Llwyr yw Ennill Iaith!

### PRESENOLDEB

Heb os mae canran **presenoldeb** eich plentyn yn ffactor allweddol ar gyfer **llwyddiant** eich plentyn. Fe ddylai pob disgybl anelu at gyrraedd 100%, gyda lleiafswm o 95% ar gyfer y flwyddyn. I gyflawni hyn rhaid: gwneud **pob ymdrech i fynychu pob dydd, osgoi gwyliau** yn nhymor yr ysgol, trefnu **apwyntiadau** tu allan i oriau ysgol, sicrhau bod eich plentyn yn mynychu **fel fyddech chi ar gyfer gwaith**. Cofiwch gysylltu gyda'r swyddfa os yw eich plentyn yn sâl ac os oes pryder gennych — cysylltwch â ni i'w drafod, fel y gallwn eich cefnogi i'w oresgyn.

Hyd yn hyn **tymor yma**, canran cyfartalog y disgyblion yw **96.1%**, gyda'r bechgyn (96.5%) yn well na'r merched (95.8%). Dewch ymlaen ferched!

YSGOL SY'N PARCHU HAWLIAU · UNICEF




### GWELLIANNAU'R ADEILAD

Unwaith eto mae tîm y safle wedi bod yn brysur yn adnewyddu ac yn ategu at ein cyfleusterau. Bydd Campfa 'Selwyn' unwaith eto ar gael i'r disgyblion, maent wedi gosod drysau tân newydd a gwneud gwelliannau amlwg hefyd i'r uned 'Gwella'. Diolch am eich gwaith bois!

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

## Newyddion Staffio

Ar ddechrau tymor mae rhai newidiadau staffio i'w rhannu gyda chi fel rhieni.

**Ffarwelio**:

Dymuniadau gorau i Miss Siwan Gruffudd, sydd yn dechrau fel Pennaeth Cemeg ym Mro Edern, Caerdydd a Mr Jordan Goldup sydd wedi mynd i deithio am gyfnod.
Diolch i bob un am eu cyfraniad i Fryn Tawe a dymuniadau gorau iddyn nhw ar gyfer y dyfodol.
Fe fydd Miss Nicola Evans yn ein gadael ni cyn hanner tymor ar gyfer cyfnod o famolaeth — dymuniadau gorau i chi fel teulu.
**Croesawu**:

Braf yw gallu croesawu nifer o staff atom eleni eto — Miss Lisa James fel Pennaeth Cemeg, Mr Gareth Thomas, (cyn-ddisgybl) fel athro Hanes a Chymraeg, Miss Angharad Rees a Mr Alun Rees fel cynorthwywyr dysgu.

Gwych hefyd yw croesawu y chwaraewr rhyngwladol Gavin Evans, gynt o'r Gleision a'r Scarlets, atom fel Swyddog Hwb Rygbi.

Croeso i Fryn Tawe a rydym yn edrych ymlaen i gydweithio gyda chi gyd!

Braf fydd hefyd croesawu Mrs Naomi Toothill-Evans yn ôl i'r ysgol cyn hanner tymor yn dilyn cyfnod o famolaeth.

### Yr Uned 'Gwella':

Wrth edrych ymlaen at flwyddyn newydd, rydym wedi sefydlu uned yn yr ysgol sydd â ffocws clir ar symbylu gwelliant.

O dan ofal Mr Mark Bridgens, Mrs Carys Bryant a Mr Duncan Rowe, ein nod yw cefnogi disgyblion i lwyddo drwy wella mewn agweddau amrywiol. Byddwn yn canolbwyntio ar wella ymddygiad, cymhelliant ac agwedd at ddysgu disgyblion er mwyn eu cynorthwyo i godi eu cyrhaeddiad.

## Diogelwch 360º

Gyda datblygiad y byd dechnoleg ar ras a chyffro gwella cymhwysedd digidol ein disgyblion, rhaid hefyd ffocysu ar ddiogelwch ar lein ein disgyblion a'r defnydd positif o wefannau cymdeithasol.

Hyfryd yw gweld y defnydd positif a wna ein disgyblion o wefannau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo achosion da a rhannu negeseuon o obaith! Serch hyn, yn anffodus, rydym yn delio'n rhy aml gyda achosion o gwympo allan a a gwrthdaro oherwydd y gallu i ddanfon neges neu i fod yn gas y tu ôl i gyfrifiadur!


Gyda'ch cefnogaeth chi a'n ymrwymiad ni, gallwn sicrhau bod ein disgyblion yn ddefnyddwyr diogel, cyfrifol a medrus ar lein. Bydd teclun Llywodraeth 360 Cymru yn ddull o sicrhau hyn. Am y newyddion diweddaraf o weithgareddau'r Ysgol dilynwch ni a nifer o'n hadrannau ar

@bryntawe

'Drydar', neu gwiriwch ein gwefan Ysgol: www.bryntawe.swansea.sch.uk

### Ysgol Greadigol:

Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 7 am eu cyfraniad arbennig i lwyddiant ein prosiect 'Cwricwlwm Greadigol'. Fe wnaethant greu rhaglenni deledu am y canol oesoedd yn eu gwersi CAMU , gan ennill cryn dipyn o ganmoliaeth gan swyddigion Y Cyngor Celfyddydau, yn ogystal â dysgu llawer wrth gael llawer o hwyl!



## Rhai llwyddiannau llynedd

Unwaith eto eleni, bu nifer o rhesymau i ni ddathlu llwyddiannau ein disgyblion gan gynnwys:

Enillodd **Steffan Leonard a Manon** 'The Don Miller Audience Award' am hoff berfformiad aelodau'r gynulleidfa yng nghystadleuaeth Perfformio Shakespeare yr ESU .

Llwyddodd **tîm Peirianneg y 6ed i** ennill gwobr Defnydd Arloesol o Dechnoleg drwy ddylunio purydd dŵr drwy egni solar yng nghystadleuaeth yr EESW.



Cawsom cryn lwyddiant yn Eisteddod Genedlaethol yr Urdd eto eleni:

Yn 3ydd—y parti ddawns greadigol a'r Côr Iau; yn 2ail — y Cyflwyniad Dramatig a'r Cywiath Iau; tra wnaeth Steffan Leonard ennill y wobr gtyntaf yn y Llefaru unigol dan 15 a chriw y Cywaith hŷn hefyd yn fuddugol—llongyfarchiadau i chi gyd!

Llongyfarchiadau hefyd i i Rhys Watty am ennill yr ail wobr am ganu'r Delyn dan 16eg yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ac i Steffan am ennill y 3ydd wobr yn Llefaru—gwych!

Llongyfarchiadau i Theo Morris am gynrychiolu Cymru mewn codi pwysau yn ogystal â thorri record Cymru dan 16. Eleni fe wnaeth Lauren Smyth gynrychiolu tîm rygbi cyffwrdd menywod Cymru ym mhencampwriaeth Ewrop—gywch!

## Ymglymiad Rhieni—Eich Llais Chi

Fel rhan o'n hymgyrch i gynnwys ein rhieni a gwarchodwyr yn addysg eich plant, bydd croeso i chi alw i mewn i'r ysgol i drafod unrhyw agweddau yr hoffech weld yn gwella o fewn yr ysgol. Byddaf yn cynnal fforwm rhieni am 5:00 yh ar bob nos Lun cyntaf y mis, gan ddcehrau ar y 3ydd o Hydref — edrychaf ymlaen i gwrdd â chi ac i glywed eich argymhellion i wella'r ysgol!

YSGOL SY'N PARCHU HAWLIAU · UNICEF

## Gair gan y prif ddisgyblion:



Fel prif ddisgyblion eleni, mae gennym ni nifer o syniadau a chynlluniau i wella bywyd y chweched yn ogystal â'r ysgol gyfan. Rydym yn barod wedi ymdrechu i uno'r chweched trwy gymdeithasu a cheisio uno'r ddwy flwyddyn o fewn y chweched. Yn ogystal â chreu cymuned o fewn y chweched, rydym wedi dechrau creu cynlluniau i wella amodau bloc y chweched e.e. cael peiriant coffi, mae hefyd gennym gynlluniau i beintio'r lolfa yn hwyrach yn y flwyddyn. Yn ogystal â'r pethau esthetig, rydym yn bwriadu ymdrechu'n fawr i hyrwyddo'r Gymraeg trwy gydol yr ysgol, ac rydym ar hyn o bryd yn trafod syniadau er mwyn cyflawni hyn mewn ffordd effeithiol. Rydym yn gobeithio cael effaith bositif ar yr ysgol eleni fel prif ddisgyblion. - Anna, Iestyn, Sara, Kadun.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur